# Y Gwasanaeth Nyrsio Ysgol

## YSGOL UWCHRADD

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

SN12 May '19

## Y Gwasanaeth Nyrsio Ysgol

Mae Nyrsys Ysgol yn nyrsys cymwys gyda hyfforddiant ychwanegol i adnabod anghenion iechyd plant a phobl ifanc.
Mae'r Nyrs Ysgol:

- yn gweithio gyda phlant o fod yn 4 oed
- yn darparu cyngor a chefnogaeth i rieni a phobl ifanc ynghylch imiwneiddio, bwyta'n iach, ymddygiad, asma, epilepsi, alergeddau, bwlian, iechyd emosiynol a lles ac iechyd rhywiol.
- yn gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni, staff yr ysgol, Meddygon Teulu, Ymwelwyr Iechyd ac asiantaethau eraill e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol
- yn darparu gwasanaeth galw heibio cyfrinachol wythnosol ar gyfer pobl ifanc i siarad am unrhyw bryderon sy'n effeithio ar eu hiechyd, gan gynnwys mynediad at atalwyr cenhedlu a chondomau

## Beth mae Nyrsys Ysgol yn ei wneud?

### Sgrinio Iechyd

Ym mlwyddyn 7 yn yr ysgol uwchradd bydd eich plentyn yn derbyn holiadur sgrinio iechyd.

**A fyddech cystal â llenwi'r holiadur amgaeedig a'i ddychwelyd i'r ysgol cyn pen tri diwrnod o'i dderbyn.**

### Cyngor Iechyd Ychwanegol

Bydd y Tîm Nyrsio Ysgol yn gysylltiedig â darparu Addysg Iechyd, Cymdeithasol ac Iechyd personol fel rhan o addysg yr unigolyn ifanc.

Mae optegwyr yn rhoi profion golwg am ddim i blant. Os byddwch chi'n pryderu unrhyw bryd am olwg eich plentyn, trefnwch apwyntiad gyda'ch Optometrydd / Optegydd lleol.

Sicrhewch fod eich plentyn wedi'i gofrestru gyda Deintydd.

### Imiwneiddiad

Bydd pobl ifanc yn cael cynnig imiwneiddiadau yn unol â rhaglen Imiwneiddio'r DU. Os nad ydych yn sicr a yw eich plentyn yn gyfredol o ran yr amserlen imiwneiddio, cysylltwch â'ch meddyg teulu i wirio neu drefnu apwyntiad i'ch plentyn gael ei imiwneiddio.

Ym mlwyddyn 8, bydd eich plentyn yn cael cynnig y brechiad HPV.

Ym mlwyddyn 9 bydd yr holl blant yn cael cynnig brechiad meningitis, a'r dos atgyfnerthu arddegau yn erbyn tetanws, diphtheria a pholio.
Bydd angen ffurflen gydsynio wedi'i llofnodi ar gyfer bob imiwneiddiad a gaiff ei anfon atoch cyn cynnig unrhyw imiwneiddiad gan y nyrs ysgol.

Mae'n bwysig cofio bod rhaglen imiwneiddio gyfredol y DU wedi rhwystro i nifer o blant rhag bod yn ddifrifol wael gyda chlefydau heintus, a dyma'r rheswm rydym yn awgrymu'n gryf dylai bob plentyn gael ei imiwneiddio.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Dîm eich Nyrs Ysgol.

**Eich Tîm Nyrs Ysgol yw:**